Trwydded Addysg Uwch CLA

1 Awst 2024 – 31 Gorffennaf 2027

Ydych chi'n gwneud copïau i'w rhannu ag eraill?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn **Copïo, Cywir.**

Copïo a rhannu cynnwys cyhoeddedig:

Copïo trwy sganio, llungopïo, argraffu neu gopïo a gludo.

Rhannu trwy'r ebost, cadw, lanlwytho neu gopi ffisegol.

Mae'r sefydliad hwn yn dal trwydded gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA) sydd, yn amodol ar delerau ac amodau, yn caniatáu copïo ac yna rhannu testun a delweddau llonydd o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau printiedig, ac o gyhoeddiadau digidol gan gynnwys rhai gwefannau gwylio-am-ddim a thanysgrifio ar gyfer cyrsiau, ymchwil a dibenion sefydliadol eraill.

Canllaw cyflym yw hwn i'r hyn a ganiateir o dan y drwydded CLA; gallwch weld y telerau ac amodau llawn yn cla.co.uk.

Beth ellir ei gopïo?

- Mae'r drwydded yn cwmpasu'r rhan fwyaf o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau printiedig a gyhoeddir yn y DU, yn ogystal â llawer a gyhoeddir dramor a nifer fawr o gyhoeddiadau digidol.
- Gallwch wirio a yw eitem wedi'i chwmpasu trwy ddefnyddio'r teclyn chwilio Check Permissions, sydd ar gael yn cla.co.uk.

Faint y gellir ei gopïo ac yna ei rannu?

- Un bennod gyfan o lyfr.
- Dwy erthygl gyfan o rifyn cyfnodolyn – neu, lle mae'r rhifyn (neu ran sylweddol ohono) ar thema benodol, ac nid yw'r cyfnodolyn yn CCC Electronic Rights-Work, unrhyw nifer o erthyglau ar y thema benodol honno.
- Un stori fer, cerdd neu ddrama (heb fod yn fwy na 10 tudalen o hyd) o antholeg.
- Un olygfa gyfan o ddrama.
- Un papur cyfan o gyfres o drafodion cynhadledd.
- Un adroddiad cyfan o un achos o gyfrol o achosion barnwrol.

Neu 10% o gyfanswm y cyhoeddiad, p'un bynnag yw'r mwyaf.

A all unrhyw un yn y sefydliad hwn gopïo?

- Gall yr holl staff a myfyrwyr wneud llungopïau at bob diben trwyddedig.
- Gall pob aelod o staff wneud copïau digidol at ddibenion trwyddedig; fodd bynnag, wrth wneud copïau ar gyfer cyrsiau, yn gyffredinol dim ond staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol yn y rôl hon sy'n cael gwneud hynny. Gwiriwch gyda'ch sefydliad a nodwch fod gofynion ychwanegol yn gymwys i'r mathau hyn o gopïau.

Ar gyfer pwy alla i wneud copïau?

- Myfyrwyr cofrestredig a staff.
- Lle mae gennych chi brosiect ymchwil ar y cyd â sefydliadau AU trwyddedig eraill, myfyrwyr cofrestredig a staff y sefydliad(au) hynny – ond cyfeiriwch at ein canllaw pwrpasol am ragor o wybodaeth.

Ni ellir rhannu copïau trwyddedig CLA yn gyhoeddus, naill ai ar-lein nac yn ffisegol.

Gwybodaeth bellach

Gall eich sefydliad roi arweiniad pellach (gweler isod). Mae rhagor o wybodaeth hefyd ar gael yn cla.co.uk.

Darperir y ddogfen hon fel arweiniad yn unig. Sylwch nid yw'n cymryd lle telerau ac amodau'r Drwydded CLA – os bydd gwrthdaro rhwng y ddau, telerau ac amodau'r Drwydded fydd drechaf.